# Dylunio cynnyrch - Cynllun gweithgaredd

## Paratoi

Trefnwch y dosbarth yn grwpiau o 3-5.

## Adnoddau

Papur mawr (A3 neu fwy)

Pennau a/neu bensiliau lliw

## Geirfa

Cynnyrch, busnes, nwyddau, gwasanaeth

## Cyflwyniad/cyd-destun

Cyflwynwch y syniad o gynnyrch (nwyddau neu wasanaeth). Mae gan bob busnes gynnyrch. Dyna beth maen nhw'n ei werthu. Gallai fod yn eitem neu'n wasanaeth. Gofynnwch i'r dosbarth enwi busnesau maen nhw'n eu hadnabod, a gweithio gyda'i gilydd i enwi'r cynnyrch y mae'r busnes yn ei werthu e.e. McDonalds – y cynnyrch yw bwyd brys, Ryan Air – y cynnyrch yw teithiau hedfan i wledydd eraill.
Dyrannwch grwpiau gweithio a rhowch yr adnoddau i'r dysgwyr.
Amlinellwch y dasg.
*Mewn grwpiau, gweithiwch gyda'ch gilydd i greu cynnyrch ar gyfer busnes dychmygol. Dylai eich cynnyrch fod yn rhywbeth newydd a gwahanol ar gyfer y cartref. Yn gyntaf, mae'n rhaid i chi ddod o hyd i broblem y mae angen ei datrys a dylunio cynnyrch i ddatrys neu helpu'r broblem honno.*
Rhowch enghreifftiau os oes angen, e.e. mae tacluso teganau bob amser mor anodd a diflas. Crëwch wal o flychau agored i daflu teganau iddyn nhw o bob rhan o'r ystafell.
Gofynnwch i'r dysgwyr lunio eu dyluniadau a'u labelu gyda nodweddion a manylion eu cynnyrch, gan gynnwys deunyddiau y bydden nhw'n eu defnyddio.

**Amser** – Yn ôl y gofyn

### Dylunio cynnyrch

Sefydlwch amserlen addas i'r grwpiau ystyried syniadau a dylunio eu cynnyrch. Rhowch arweiniad i'r dysgwyr gyda chwestiynau arweiniol i ennyn syniadau.

**Amser** – 10-20 munud

### Cyflwyniad

Gofynnwch i'r dysgwyr, un grŵp ar y tro, gyflwyno eu syniadau'n anffurfiol.

**Amser** – 10-20 munud

### Casgliad

Hwyluswch drafodaeth dosbarth am y syniadau ac a ydyn nhw'n meddwl y bydden nhw'n gwneud busnesau da. Anogwch y dysgwyr i feddwl am: Faint o alw sydd am y cynnyrch (h.y. pa mor gyffredin yw'r broblem), pa mor debygol y mae pobl o'i brynu (h.y. cost y datrysiad), sut y byddai'n cael ei wneud (deunyddiau, cymhlethdod ac ati).

## Amrywiadau/ehangu ar y gweithgaredd

Er mwyn ehangu ar y gweithgaredd, rhowch amser ychwanegol i'r dysgwyr ymchwilio, cynllunio a chyflwyno.